Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.06.2021

## COVID-19: Cyfle olaf i fusnesau gyda throsiant o £85k+ cyn Covid i hawlio arian ERF

Bydd y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) i fusnesau gyda throsiant cyn COVID o £85,000+ yn cau am 5:00pm Dydd Llun, 14 Mehefin 2021. Gall busnesau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd ar waith yn ystod mis Mai a mis Mehefin wneud cais am gymorth i gwrdd eu costau gweithredu. Peidiwch ag oedi – i wirio'ch cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy

- Gall busnesau sydd â throsiant cyn-COVID o dan £85,000 wneud cais trwy Gyngor Gwynedd tan 5:00 pm ar 31 Mehefin 2021 – cliciwch ar y ddolen uchod am fwy o wybodaeth.

# COVID-19: CThEM yn cadarnhau pumed grant SEISS

Mae CThEM wedi cadarnhau y bydd y pumed grant sydd ar gael o dan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) ar agor i ymgeiswyr o ddiwedd mis Gorffennaf 2021. Bydd y grant ar gael ar gyfer y pum mis rhwng mis Mai a mis Medi 2021 – am fwy o wybodaeth ewch i:

https://bit.ly/3xbrmHq

# COVID-19: Helpwch i gadw'ch cwsmeriaid a'r gymuned yn ddiogel y penwythnos hwn

Gobeithio y caiff pawb ym maes manwerthu a lletygarwch benwythnos gwych – dyma eich atgoffa yn gyflym o prif awgrymiadau tîm Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd o'r wythnos diwethaf:

- Manwerthu a lletygarwch: gwnewch yn siŵr bod staff yn gwisgo masgiau wyneb bob amser

- Lletygarwch: casglwch fanylion cyswllt llawn holl staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr – enw, rhif ffôn a dyddiad/amser cyrraedd pawb dros 18 oed – a chadw'r wybodaeth hon mewn lle diogel am 21 diwrnod (cofiwch nad yw arddangos cod QR App y GIG ar ei ben ei hun yn ddigon).

Mae canllawiau manwl ar gael ar gyfer y ddau sector:

- Manwerthu

https://llyw.cymru/manwerthwyr-camau-blaenoriaeth-html

- Twristiaeth a Lletygarwch

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html

# GWOBRWYON: Enwebiadau Womenspire yn cau 21 Mehefin 2021

Unwaith eto, mae Chwarae Teg, prif elusen cydraddoldeb rhywedd Cymru, yn dathlu cyflawniadau menywod o bob cefndir, oed a gwaith ledled Cymru. Mae Womenspire yn cydnabod pob agwedd ar fywyd merched, o gyflawniadau personol i gyfraniad anhygoel, ac maent am i chi fod yn rhan o'r dathliadau hyn trwy enwebu merched sy'n eich ysgogi a bydd yn rhaid i chi wneud hynny erbyn 21 Mehefin 2021. Ffurflen enwebu a mwy o wybodaeth am y categoriau o:

https://chwaraeteg.com/prosiectau/womenspire/

https://chwaraeteg.com/projects/womenspire/#award-categories

## GWOBRWYON: Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2021

Mae ceisiadau ar gyfer Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2021 ar agor hyd at 2 Gorffennaf 2021. Mae entrepreneuriaid cymdeithasol, arweinwyr busnes, cydweithredwyr sy'n gweithio'n galed ac arloeswyr talentog y sector busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu gwahodd i wneud cais. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://cymru.coop/ceisiadau-am-wobrau-2021/

## BREXIT: Crynodeb – Perthynas newydd y DU â'r UE

Mae'r DU wedi gadael yr UE ac mae'r cyfnod trawsnewid bellach wedi dod i ben. Mae crynodeb newydd ei gyhoeddi sy'n rhoi trosolwg o'r hyn sydd wedi newid, a'r hyn sy'n aros yr un peth, ewch i:

https://bit.ly/2TiQqhc

## BREXIT: Marciau Asesu Cydymffurfiaeth Newydd

Mae'r DU wedi gadael yr UE. O ganlyniad, mae newidiadau i'r ffordd y mae busnesau'n gosod nwyddau gwneuthuriedig ar y farchnad. Marc UKCA (Asesiad Cydymffurfiaeth y DU) yw'r marc cynnyrch newydd y mae'n rhaid ei ddefnyddio i ddangos bod rhai nwyddau yn cydymffurfio â rheolau â rheoliadau newydd y DU. I ddarganfod a oes angen i chi ddefnyddio marc UKCA a sut i'w ddefnyddio, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/using-the-ukca-marking

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru